| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2000 |
| **Amser:** | 9.00am - 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## STRATEGAETH COETIR I GYMRU

### Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar Amlinelliad Drafft y Strategaeth (Atodiad 1)

### Crynodeb

2. Paratowyd Amlinelliad Drafft y Strategaeth gan Weithgor o swyddogion o adrannau ac asiantaethau'r Cynulliad Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth y Comisiwn Coedwigaeth. Mae gan y Gweithgor aelodau sydd yn cynrychioli Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac estynwyd y Gweithgor yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i gynnwys cynrychiolwyr y sector amgylcheddol wirfoddol a'r diwydiannau coedwigaethol.

3. Mae'r Amlinelliad Drafft yn datblygu'r testunau a'r dyheadau a godwyd gan yr ymgynghoriad cyhoeddus y rhoddwyd adroddiad arno i'r Pwyllgor hwn eisoes. Trafodwyd yr Amlinelliad Drafft hwn gyda chynrychiolwyr neu grwpiau buddiant yn ddiweddar mewn Gweithdy Cyfranogwyr ar 6 Tachwedd 2000. I raddau helaeth cafwyd cefnogaeth y cyfranogwyr i'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn yr Amlinelliad Drafft, ond roeddynt am weld hefyd:

- mwy o bwys yn cael ei roi i goetiroedd fferm a chysylltiadau â'r economi amaethyddol.
- cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i bwysigrwydd coetiroedd am ddatblygu a chefnogi cymunedau ledled Cymru ; a hefyd
- cydnabyddiaeth bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth bwysig ym mhob sefyllfa a ni ddylid cyfyngu gwaith i gefnogi bioamrywiaeth i Gynlluniau Gweithredu ar Gynefinoedd a Rhywogaethau.

### Amseru

4. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar y testunau hyn ac eraill, fel y bydd modd cymryd eu syniadau i ystyriaeth wrth lunio strategaeth ddrafft derfynol yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Rhaid derbyn sylwadau cyn y Nadolig fel y bydd yn bosibl i'r gwaith fynd yn ei flaen tuag at gyhoeddi'r Strategaeth yn hwyr yn y gwanwyn yn 2001.

### Cydymffurfiad

5. Mae Rhan 105 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn darparu i'r Cynulliad wneud darpariaeth am ariannu swyddogaethau'r Comisiynwyr Coedwigaeth parthed Cymru. Ni weithredwyd y rhan hon o'r Ddeddf hyd yn hyn. Pan gwneir penderfyniad i drosglwyddo cyfrifoldeb ariannol i'r Cynulliad, gwneir trefniadau addas i weithredu hyn.

**Man Cysylltu**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Simon Hewitt, Comisiwn Coedwigaeth

---

**Atodiad 1**

## Strategaeth Coetir Cymru

Amlinelliad Drafft y Strategaeth

Rhagair - **Gan Carwyn Jones (Gweinidog Materion Gwledig)**

**Crynodeb Gweithredol**

**RHAN 1: Cyflwyno'r Strategaeth**

**1.1 Rhagymadrodd a Chyd-destun**

Mae Datganoli wedi rhoi cychwyn i agenda newydd priodol Cymreig i goetiroedd Cymru. Byddwn yn manteisio ar y cyfle hwn i ddatblygu agwedd newydd tuag at goetiroedd yng Nghymru. Bydd y strategaeth hon yn arlwybro rheolaeth gynaliadwy o goetiroedd gan gyfrannu tuag at nod y Cynulliad Cenedlaethol o gyfiawnder cymdeithasol a golud i bawb, fel ag a amlinellir yn y cyhoeddiadau **'Cymru Gynaliadwy', 'Cymunedau'n Gyntaf', 'gwellcymru.com' a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth i Bobl Cymru'.**

**Cyflawni'n hymrwymiadau rhyngwladol yng Nghymru.**

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o ymrwymiadau rhyngwladol i goedwigaeth gynaliadwy, gan nodi ei hymateb i'r rhain yn **'Safon Coedwigaeth y DU'** a gyhoeddwyd ym 1998. Bydd y strategaeth hon yn helpu cyflawni ymrwymiad y DU tuag at goedwigaeth gynaliadwy yn ogystal â chyfrannu i'n hymrwymiadau rhyngwladol ar Gyfnewid Hinsoddol trwy gyfraniad tuag at ein rhaglen o ynni adnewyddadwy.

Mae pob un o goedwigoedd y Cynulliad Cenedlaethol a reolir gan Fenter Coedwigaeth wedi ennill tystysgrif annibynnol sydd yn ardystio iddynt gwrdd â Safon Sicrwydd Coetir y DU. Derbynnir gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth rhyngwladol anllywodraethol bod y safon hon yn cwrdd â'u gofyniadau am ardystio coetiroedd â rheolaeth gynaliadwy. Byddwn yn pledio achos rheolaeth goedwig gynaliadwy fel rhan o'n hymrwymiad stadudol i ddatblygiad cynaliadwy.

**1.2**

**GWELEDIGAETH: Ein gweledigaeth AR GYFER YR 50 MLYNEDD NESAF,** yw coetiroedd o ansawdd uchel a reolir yn gynaliadwy sydd yn mwyhau'r dirwedd, sydd yn briodol ar gyfer yr amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd. Bydd rhain yn:

- Cynnig ystod gynyddol o fuddion cymdeithasol a chymunedol yn lleol ac yn genedlaethol.
- Cynnal diwydiannau coedwrol ffyniannol;
- Cyfrannu tuag at ansawdd amgylcheddol cynaliadwy ledled Cymru

Cyflawnir hyn trwy gyfrwng y canlynol;

- Creu mwy o goetiroedd gwell trwy hyrwyddo'r dulliau gweithredu coedwrol mwyaf addas, mwy o goedwigaeth gorchudd di-dor a rheolaeth aml-bwrpas;

- Datblygu Cymru fel lleoliad o ansawdd rhyngwladol am ddiwydiannau coedwig;
- Gwella safonau dylunio tirwedd, diogelu bioamrywiaeth a choleddu ein hetifeddiaeth goetirol;
- Cefnogi datblygiad cymunedol; a hefyd
- Hyrwyddo twristiaeth, hamdden ac iechyd.

**1.3 Egwyddorion Arweiniol**

Bydd yr egwyddorion arweiniol sylfaenol o **ddatblygiad cynaliadwy** yn wir am holl nodau'r Strategaeth. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad tuag at ddatblygiad cynaliadwy trwy deddf a thrwy ddewis a bydd y strategaeth hon yn cymhwyso'r egwyddorion sylfaenol o ddatblygiad cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a chyfartaledd cyfle a nodir yn **Y Gymru Gynaliadwy; Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth i Bobl Cymru;** a Chynllun Corfforaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan y teitl **"gwellcymru"** Cyflawnir ein Gweledigaeth am ddyfodol coetiroedd Cymru trwy gyfrwng yr egwyddorion arweiniol hyn, a fynegir fel a ganlyn:

**a) Cynhwysedd Cymdeithasol**

Gall coetir wneud gwahaniaeth i ansawdd bywydau pobl. Trwy dechnegau o gyfranogiad cymunedol, gall perchnogion coetir sicrhau bod eu coetiroedd yn cynnig cyfleoedd am ddatblygiad economaidd

lleol, hamdden a gofal iechyd ataliol. Bydd coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn arbennig o bwysig am gyflwyno buddion cymdeithasol i gymunedau.

**b) Ansawdd**

Rhaid rheoli coetiroedd Cymru i gyflawni canlyniadau o ansawdd i bob sector o'r gymuned, boed trwy hamdden, cynhyrchu pren, cyfranogiad cymunedol neu eu heffaith weledol ac esthetig. Dylai coetiroedd gyfrannu tuag at ddelwedd ansawdd Cymru sydd yn denu ymwelwyr ac yn mwyhau ansawdd bywyd holl bobl Cymru.

**c) Partneriaeth**

Nid rhywbeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn unig ei gyflawni mo hwn – mae angen cyfranogiad ac ymrwymiad pawb. Rhaid wrth agwedd hyblyg sydd yn caniatáu i frwdfrydedd y bobl gael ei ddefnyddio'n adeiladol. Dim ond trwy bartneriaethau effeithiol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, diwydiant, gwirfoddolwyr ac unigolion y gellir cyflawni'r weledigaeth.

**ch) Integreiddiad**

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y berchnogaeth unigol fwyaf o goetir yng Nghymru – coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r coetiroedd hyn yn llai amrywiol na'r rhai yn y sector breifat. Ein bwriad yw defnyddio'r coetiroedd hyn fel enghreifftiau ymarferol o'r dulliau gweithredu gorau, er mwyn cyflawni buddion cymdeithasol ac amgylcheddol trwy newidiadau mewn rheolaeth ac er mwyn cynnig coetiroedd y gall pobl Cymru fod yn gyfiawnadwy falch ohonynt. Yn y sector breifat, mae nifer fawr o berchnogion unigol cymharol fychain wedi creu a chynnal amrediad amrywiol a gwahanol o goetiroedd. Byddwn yn annog perchnogion coetiroedd i chwarae eu rhan wrth gyfrannu tuag at y frithlen oludus o goetiroedd a fydd yn cyflawni'n gweledigaeth a rennir gennym.

Byddwn yn chwilio am ddolenau â rhaglenni eraill y Cynulliad Cenedlaethol i gynnig agweddau cyfannol ar lefelau Cenedlaethol, Rhanbarthol a lleol. Ceir cysylltiadau cryfion ag amaethyddiaeth, sydd yn wynebu llawer o'r un heriau, a chyda rhaglenni amgylcheddol. Bydd Strategaeth Datblygiad Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyflawni llawer o'r gefnogaeth ddatblygu i fusnesau coedwigaeth, yn enwedig trwy raglenni Amcan 1. Mae integreiddiad yn bosibl hefyd mewn polisïau trefol, lle y gellir cynorthwyo cymaint o raglenni i ddatblygu cymunedau, gwaredu anghyfartaleddau a gwella ansawdd bywyd trwy ddefnyddio coed a choetiroedd fel elfen o wyrddni mewn tir agored trefol integreiddiedig. Byddwn yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r dolennau cyswllt gan geisio agweddau blaengar am gyflawni'n gweledigaeth.

## RHAN 2: Amcanion y Strategaeth

## 2.1 Rhagymadrodd

Mae rhaid cyflawni llawer o amcanion er mwyn wireddu'r weledigaeth. Rhaid datgan yr amcanion hyn yn glir a rhaid i'r camau angenrheidiol am symud tuag at yr amcanion hyn fod yn fesuradwy. Yn y rhan hon byddwn yn nodi'r prif amcanion, rhai o'r mynegyddion perfformiad a , lle'n briodol, cerrig milltir am gyrhaeddiadau'r cyfnod canol.

Ein hamcan yw datblygu coetiroedd o ansawdd rhyngwladol yng Nghymru, gydag ansawdd amgylcheddol rhagorol, darpariaeth gymdeithasol a diwydiant sydd yn cyfrannu'n adeiladol tuag at yr economi trwy ddarparu gwaith diogel a chynaliadwy.

Ni fydd cyflawni'r amcanion hyn yn waith hawdd na chyflym, ond gyda brwdfrydedd a chefnogaeth ledled Cymru, gallwn ddechrau symud yn ein blaenau. Lle'n bosibl, enwir y partneriaid arweiniol am gyflawni'r amcanion. Canfyddir mesuriadau cyrhaeddiant yng nghoetiroedd y Cynulliad. Cesglir y rhaglenni gweithredu mewn pum maes bras o amcanion:

- **Mwy o goetiroedd a choetiroedd gwell - annog rheolaeth coetir o ansawdd uchel**
- **Datblygu Cymru fel lleoliad o ansawdd rhyngwladol am ddiwydiannau coedwigaethol**
- **Creu amgylchedd cynaliadwy o'r ansawdd blaenaf**
- **Cefnogi datblygiad cymunedol**
- **Hyrwyddo twristiaeth, hamdden ac iechyd**

## 2.2 Mwy o goetiroedd a choetiroedd gwell – annog rheolaeth coetir o ansawdd uchel

Dyma amcanion allweddol rheoli coetir:

- **Hyrwyddo coedwraeth â'r dulliau gweithredu gorau sydd yn cyflawni rheoli coetir cynaliadwy;**
- **Symud ymlaen yn gynyddol tuag at ddefnydd uwch o systemau gorchudd di-dor; a hefyd**
- **Annog ehangiad coetir priodol.**

### 2.2.1 Hyrwyddo coedwraeth â'r dulliau gweithredu gorau

Allwedd yr amcan hwn yw sicrhau adnoddau coetir hyblyg sydd yn gallu cwrdd yn well â heriau a chyfleoedd y ganrif newydd hon. Ceir llawer o wahanol fathau o goetir, sydd yn cynnig ystod o fuddion sydd yn addas ar gyfer eu lleoliadau a'u mathau o berchnogaeth, a dylai hynny barhau felly.

*Byddwn yn datblygu dulliau o gyflawni'r dulliau coedwrol gorau, ehangu cynllunio holistaidd hir-gyfnod mewn rheolaeth goetir ac annog teneuo.*

*Byddwn yn sicrhau i ddulliau teg a chyfiawn gael eu sefydlu i gydnabod buddion cymdeithasol ac amgylcheddol coetiroedd.*

### 2.2.2 Symud ymlaen yn gynyddol tuag at ddefnydd uwch o systemau gorchudd di-dor

Mae achos darbwyllol am symud i ffwrdd o ddefnyddio system clirdorri. Ni fydd defnyddio gorchudd di-dor yn addas bob amser neu ym mhob man, ond bydd cyflwr ffafriol ein safleoedd yn caniatáu'r math hwn o reolaeth yn y rhan fwyaf o fannau cysgodol. Yn bennaf, mae coetiroedd ym meddiant y Cynulliad Cenedlaethol yn blanhigfeydd o gonifferau ar safleoedd a fu gynt yn dir agored. Mae'r coetiroedd hyn yn llai amrywiol na'r rhai mewn perchnogaeth breifat a byddant yn buddio gan gael eu trosi i amgylchedd coetir mwy sefydlog.

*Byddwn yn newid coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol drosodd i orchudd di-dor lle'n ymarferol gan annog trosiant mewn coetiroedd tebyg yn y sector breifat.*

| |
|---|
| Byddwn yn sefydlu 3 man arbrofol helaeth yng nghoetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn arloesi technegau llwyddiannus am drosi i systemau gorchudd di-dor ac i gasglu gwybodaeth i fod yn ganllaw am drosi yr holl fathau o goetiroedd yn y dyfodol |

### 2.2.3 Annog ehangiad coetir priodol.

Mae coed a choetiroedd yn gorchuddio tua 14% o arwynebedd tir Cymru. Maent yn cynnig ystod o fuddion i'r gymdeithas a gellir cynyddu hyn trwy ehangu'n briodol. Gall coetiroedd newydd gysylltu a diogelu'r gweddillion amhrisiadwy o'n coetiroedd hynafiaethol hanner naturiol, harddu tir a ddifethwyd gan fwyngloddio ac adfer, cynnig cysgodfeydd ar ffermydd ac arallgyfeirio busnesau amaethyddol yn ogystal â chyfrannu tuag at gyflenwad cynaliadwy o bren i ddiwydiant.

*Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i annog ehangiad priodol o goetiroedd*

## 2.3 Datblygu Cymru fel lleoliad o ansawdd rhyngwladol am ddiwydiannau coedwigaethol

Yr amcanion allweddol ar gyfer yr economi yw:

- **Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ddiwydiannau coedwigaeth Cymru;**
- **Datblygu cadwyn y cyflenwad o bren a marchnata'r cynnyrch**
- **Annog diddordeb a gweithgaredd mewn coetiroedd fferm**

### 2.3.1 Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ddiwydiannau coedwigaeth Cymru

Yr allwedd i gyrraedd yr amcan hwn yw cyflawni'r Strategaeth Datblygiad Economaidd Genedlaethol trwy'r Awdurdod Datblygu a phartneriaid eraill. Bydd gwneud y defnydd mwyaf o effeithiau Cyllid Strwythurol yr UE o dan Amcanion 1, 2 a 3 yn bwysig yn y cyfnod byr.

*Byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu i gynyddu cystadleuolrwydd ein diwydiannau coedwigaeth a gosod systemau am gefnogaeth busnes a hyfforddiant.*

**2.3.2 Datblygu cadwyn y cyflenwad o bren a marchnata'r cynnyrch**

Un o'r ffactorau sydd yn cyfyngu datblygiad yn y sector hon yw diffyg hyder yn y gadwyn cyflenwi pren. Yn aml, bydd llawer o wahanol fusnesau yn cymryd rhan yn y driniaeth o unrhyw ddarn o bren cyn i hwnnw fod yn gynnyrch terfynol. Mae llawer o'r busnesau hyn o dan wasgedd ariannol oherwydd y cwymp mewn prisiau pren yn hwyr yn y 1990au. Ffactor allweddol arall mewn llwyddiant busnes yw marchnata cynnyrch. Rhaid i gynnyrch pren gystadlu mewn marchnad ryngwladol ac mae nodweddion arbennig y cynnyrch neu'r gwasanaeth a gynigir gan bob busnes yn hollbwysig am lwyddiant.

*Byddwn yn gweithio gyda chynrychiolwyr y diwydiant i gefnogi a datblygu busnesau yng nghadwyn cyflenwad pren, gan eu cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ar y meintiau a'r ansawdd o'r pren sydd ar gael.*

*Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o bren gan annog busnesau i farchnata eu cynnyrch yn effeithiol*

| |
|---|
| Mae datblygiad cnewyllyn o ddiwydiannau coedwigaeth yn yr Alban yn harneisio gweithgaredd ledled y sector i gefnogi a datblygu busnes. Byddwn yn ystyried meithrin cnewyllyn yng Nghymru a'r Gororau. |

**2.3.3 Annog diddordeb a gweithgaredd mewn coetiroedd fferm**

Mae coetiroedd fferm yn gyfrifol am dua 25% o adnoddau coetir yng Nghymru. Bydd rheolaeth ofalus o'r coetiroedd hyn fel adnoddau fferm yn cyfrannu tuag at incwm ffermydd ac arall-gyfeirio mentrau fferm yn ogystal â darparu buddion ychwanegol i'r dirwedd a'r amgylchedd.

*Byddwn yn helpu ffermwyr i wneud y defnydd gorau o adnoddau coetir fferm trwy gysgodfeydd a datblygiad cynhyrchion pren a rhoi help i ffermwyr i amrywio eu busnesau amaethyddol trwy reolaeth goetirol, contractio a phrosesu pren.*

**2.3.4 Datblygiad economaidd arall**

Mae dolennau â'r economi amaethyddol, datblygiad busnesau crefft a busnesau eraill sydd yn defnyddio

pren a datblygiad pren am gynhyrchu ynni adnewyddadwy pob un yn feysydd pwysig am ddatblygiad economaidd. Ceir llawer o fuddion economaidd i economi Cymru trwy effeithiau lluosiadol a ddaw o waith coetir. Mae'r buddion ehangach hyn yn hanfodol i gefnogaeth cymunedol economaidd ffyniannus ledled Cymru.

*Byddwn yn datblygu cynllun ynni adnewyddadwy cyfannol, gan sicrhau i bren gael ei gydnabod fel tanwydd allweddol am gynhyrchu ynni adnewyddadwy.*

*Byddwn yn cefnogi datblygiad busnesau arbenigol sydd yn defnyddio pren.*

## 2.4 Creu amgylchedd cynaliadwy o'r ansawdd uchaf

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad tuag at Ddatblygiad Cynaliadwy. Mae'r strategaeth hon yn elfen hanfodol yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru. Mae cadw a mwyhau ein hadnoddau naturiol yn amcanion allweddol am gyflawni amgylchedd cynaliadwy**,** yn enwedig:

**Gweithredu Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth mewn coetiroedd**

**Cadw a mwyhau tirwedd Cymru**

### 2.4.1 Gweithredu Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth mewn coetiroedd

Mae gan goetiroedd Cymru rai o'r cymunedau planhigion a chreaduriaid pwysicaf mewn unrhyw gynefin yng Nghymru. Mae coed derw ein hucheldiroedd o bwys rhyngwladol ac mae pob un o'n coetiroedd hynafol hanner naturiol yn asedion unigryw. Mae gan lawer o'n coetiroedd hanner naturiol diweddar a llawer o blanhigfeydd ag olion llystyfiant hanner naturiol hefyd werthoedd bioamrywiaethol uchel eisoes, neu'r potensial am hynny. Mae gwella ansawdd y coetiroedd hyn ac ehangu a chysylltu eu rhwydweithiau o gynefinoedd yn mynnu agwedd strategol.

*Byddwn yn cynyddu ansawdd a maint coetiroedd brodorol ac yn gweithio i atal colledion bellach o goetir hynafol, gan barhau i dargedu adnoddau cyfyngedig ar flaenoriaethau strategol.*

### 2.4.2 Cadw a mwyhau tirwedd Cymru

Mae gan goed a choetiroedd effaith weladwy uchel ac maent yn elfennau allweddol o'n tirweddau anwylaf, gan chwarae rhan mor hanfodol yn y diwydiant twristiaeth. Mae coed yn cyfrannu hefyd tuag at ansawdd bywyd trwy wella amgylchoedd y trefi, dinasoedd a mannau masnachol lle y mae pobl yn byw ac yn gweithio. Dylid gwerthfawrogi treftadaeth archeolegol gyfoethog mewn coetiroedd, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi am ei chyfraniad tuag at y gymdeithas. Gellir defnyddio coed a choetiroedd i ail-gysylltu tirweddau a ddifrodwyd gan fwyngloddio ac adfer. Ond mae tirwedd yn ddeinamig ac yn gyfnewidiol. Rhaid i ni sicrhau bod ein coetiroedd yn mwyhau'r dirwedd trwy ddefnyddio egwyddorion dylunio cyfoes wrth gynllunio rheolaeth yn y dyfodol ac ail-blannu yn dilyn

torri.

*Byddwn yn defnyddio coetiroedd i adfer tirweddau diraddiedig, datblygu cynlluniau gweithredu i flaenoriaethu gwaith mewn tirweddau hanesyddol ac i ymestyn yn gynyddol y wybodaeth ar nodweddion hanesyddol pwysig o fewn coetiroedd.*

**2.4.3 Mwyhad amgylcheddol pellach**

Er y gall bioamrywiaeth a thirwedd fod yn destunau amgylcheddol allweddol, mae llawer o rai eraill sydd hefyd yn haeddu sylw. Gall coetiroedd gael effeithiau pwysig ar yr amgylchedd dwr. Gall dylunio a rheolaeth da o'n coetiroedd wrthdroi asideiddio nentydd, mwyhau amrywiaeth nentydd a chael cydbwysedd yn llifiant y dwr**.**

*Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i helpu diogelu adnoddau dwr.*

**2.5 Cefnogi datblygiad cymunedol**

Mae datblygiad cymunedol yn flaenoriaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn enwedig adnewyddiad ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Gellir defnyddio coetiroedd yn adeiladol i ddenu cyfranogiad cymunedau lleol, cefnogi addysg o blaid adfer delwedd amgylcheddol bositif ac i gyfrannu tuag at gynaliadwyedd lleol. Gall coetiroedd helpu ail-gysylltu pobl leol â'u tirwedd a threftadaeth hefyd. Dyma amcanion allweddol cefnogi datblygiad cymunedol:

- **Defnyddio coetir fel cymorth ar gyfer ail-gysylltu cymdeithasol o'n cymunedau mwyaf difreintiedig**
- **Gwneud y defnydd mwyaf posibl o goetiroedd am addysg**

**2.5.1 Defnyddio coetir fel cymorth ar gyfer ail-gysylltu cymdeithasol o'n cymunedau mwyaf difreintiedig**

Yn aml, gall coetiroedd fod yn ffordd effeithiol o ddatblygu ysbryd gymunedol. Mae pobl yn teimlo cysylltiad cryf â choed a choetiroedd a gall argymhellion am reoli coetiroedd lleol neu am greu coetiroedd newydd esgor ar ddiddordeb sylweddol. Gall y diddordeb hwn arwain at weithredu gwirfoddol ac at ddiddordeb mewn testunau amgylcheddol lleol eraill. Mae lleoliad ystâd coetir y Cynulliad Cenedlaethol yng nghymoedd y De yn rhoi llawer o gyfleoedd am weithredu uniongyrchol.

*Byddwn yn defnyddio coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill fel ffocws am ail-gynhyrchu eu cymunedau cyffiniol*

**2.5.2Gwneud y defnydd mwyaf posibl o goetiroedd am addysg**

Mae coetiroedd yn adnoddau y gellir eu defnyddio i gefnogi addysg ar bob lefel ac ar draws ystod eang o destunau'r cwricwlwm. Gallant fod yn gyflwyniad effeithlon i wyddorau biolegol, daearyddiaeth, mathemateg ac economeg yn ogystal â mewn gweithgareddau hamdden a chelfyddydol. Mae coetiroedd a'r defnydd o bren fel defnydd crau yn cyflwyno'r syniad o ddatblygiad cynaliadwy mewn ffordd ddealladwy. Mae diddordeb yn nirywiad y coedwigoedd trofannol a'r cydweithiad â hinsawdd y byd yn cynnig testun perthnasol arall sydd yn ôl-gysylltu â'r amgylchedd a choetiroedd lleol fel adnoddau treftadaeth lleol. Mae datblygiad Menter Addysg Goedwig i gynnwys perchnogion a rheolwyr coetir lleol a phroseswyr pren yn rhoi cyfle i ddod â'r defnydd addysgol hwn i bob cwr o Gymru.

*Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o goetiroedd fel adnoddau addysg a cynllunio coetir fel teclyn am gyfranogiad cymunedol.*

| |
|---|
| Mae posibiliadau anferth am ddefnyddio coetiroedd i ddatblygu cymunedau, ond mae'r ddealltwriaeth o'r technegau cysylltiedig a'r buddion sydd i'w cael yn wael. Rydym yn cynnal ymchwil i helpu canfod y rhwystrau i gyfranogiad cymunedol a byddwn yn defnyddio arbenigwyr eraill er mwyn sicrhau y byddwn yn gwneud y defnydd gorau o werth y coetiroedd i gymunedau lleol. |

### 2.6 Hyrwyddo twristiaeth, hamdden ac iechyd

Mae coetiroedd yn rhoi strwythur i'r dirwedd ac maent yn gefndir i lawer o fentrau twristiaeth. Mae coetiroedd yn lleoedd i ymweld â nhw ynddynt eu hunain a bydd llawer o gyfleusterau yn y coetiroedd yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Bydd coetiroedd yn cyfrannu'n adeiladol tuag at iechyd a lles emosiynol ein pobl trwy gyfrwng mynediad a hamdden. Dyma amcanion allweddol am hyrwyddo twristiaeth ac iechyd:

- **Cefnogi twristiaeth yng Nghymru trwy ddefnyddio coetiroedd i greu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr;**
- **Hyrwyddo gofal iechyd ataliol trwy gyfrwng mynediad i goetriroedd i bob cymuned**.

#### 2.6.1 Cefnogi twristiaeth yng Nghymru trwy ddefnyddio coetiroedd i greu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr

Mae Coed a Choetiroedd yn chwarae rhan anferth wrth greu delwedd ddeniadol o Gymru fel cyrchfan i dwristiaid. Mae defnyddio coed fel cefndir i adnoddau twristaidd yn mwyhau ansawdd profiad y twristiaid. Mae lle i ddatblygu llety o ansawdd i dwristiaid mewn coetir priodol ac am fwy o ddefnydd o goetir am leoli adnoddau hamdden**.**

*Byddwn yn datblygu cynllun twristiaeth goetir i gefnogi'r defnydd o goetir wrth ddatblygu profiad o*

*ansawdd uchel i dwristiaeth*

### 2.6.2 Hyrwyddo iechyd trwy gyfrwng mynediad i goetiroedd i bob cymuned.

Gall coetiroedd chwarae rhan wrth gynnal lles corfforol ac emosiynol unigolion a chymunedau. Mae defnyddio coetiroedd am fwynhad tawel ac am chwaraeon a hamdden yn ffordd effeithiol o gadw'n heini ac yn iach. Gall cerdded yn y coetiroedd fod yn therapi effeithlon i adfer iechyd ar ôl clefyd. Bydd annog mynediad i goetiroedd i bob cymuned yn cyfrannu tuag at iechyd y genedl. Mae hyrwyddo mynediad i goetir fel rhan annatod o fynediad ehangach i gefn gwlad yn bwysig os yw buddion llawn mynediad i'w cyflawni. Bydd coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn arbennig o bwysig wrth fodloni'r galw am fynediad i goetiroedd gydag adnoddau hamdden, ond anogir perchnogion coetir eraill i gynnig mynediad gwirfoddol i'r cyhoedd mewn ffordd cyd-lynol.

*Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i ehangu mynediad i goetir, darparu gwell wybodaeth ar fuddion coed a choetiroedd i iechyd ac ehangu mynediad i goetiroedd i gymunedau difreitniedig.*

## RHAN 3: Gweithredoedd a Cherrig Milltir

Mae'r rhan hon yn nodi ymrwymiadau i bartneriaid mewn **Rhaglenni Gweithgaredd** ac mae'n awgrymu **Mynegyddion Cyrhaeddiant** i'r cyfnod byr a chanolig.

Bydd y rhan hon yn cynnwys tabl sydd yn nodi'r Gweithgareddau angenrheidiol fel rhaglen ar gyfer pob Amcan. Nodir y gweithgareddau ar gyfer ystâd coetir y Cynulliad Cenedlaethol yn glir er mwyn dangos pa rannau o'r strategaeth sydd i'w cyflawni yn uniongyrchol a'r rhain a wireddir trwy annog eraill.

### Asesu ac Arolygu

Mae sefydlu '**Fforwm Coetir'** yn ymrwymiad allweddol am fonitro ac arolygu rhaglenni. Bydd y Fforwm Coetir yn cynnig peirianwaith i bartneriaieth gofnodi cynnydd a sicrhau yr arolygir ac y diweddarir pob rhan o'r strategaeth yn rheolaidd.

## RHAN 4: Esboniad a Thystiolaeth

Mae'r rhan hon yn gosod cefndir y strategaeth, pam yr ystyrir yn angenrheidiol a sut yr ymgynghorwyd â phobl ar ei gynnwys. Mae'n nodi hefyd rhywfaint o'r hanes a'r cefndir sydd yn angenrheidiol am ddealltwriaeth o gyd-destun y strategaeth.

### Deall y cyd-destun: hanes datblygiad coetir Cymru

**i) Newidiadau i goetir trwy’r oesoedd**

**ii) Yr Oes Gyfoes**

**Paratoi’r Strategaeth**

**Ymatebion i Ymgynghoriad**

**Buddion cynaliadwy o goetir**

Gwybodaeth gefnogol ar y buddion o ddilyn yr Amcanion yn RHAN 2